OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 3023 (Cy.307)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygio) 2012

Gwnaed - - - -	*1 Rhagfyr 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*5 Rhagfyr 2012*
Yn dod i rym - -	*1 Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) ac adran 118A(1) i (3) o'r Ddeddf honno.

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a Gweithdrefn) (Diwygio) 2012.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2013.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2001" ("*the 2001 Regulations*") yw Rheoliadau Cyngor Gofal Cymru (Penodi, Aelodaeth a Gweithdrefn) 2001(**2**).

Diwygio Rheoliadau 2001

2.—(1) Yn rheoliad 1(2) o Reoliadau 2001 (enwi, cychwyn a dehongli)—

(a) hepgorer y diffiniad o "CCETSW";

(b) yn y diffiniad o "Cyngor Lloegr", yn lle "Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol a sefydlwyd gan adran 54 o'r Ddeddf" rhodder "Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal a sefydlwyd gan erthygl 3 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001(**3**)".

(2) Yn rheoliad 2 hepgorer paragraff (6)(dd).

(3) Yn rheoliad 5 o Reoliadau 2001 (anghymhwyso rhag penodi)—

(a) yn lle paragraff (1)(ch) rhodder y canlynol—

(**1**) 2000 p.14.
(**2**) O.S. 2001/2136 (Cy.149).
(**3**) O.S. 2002/254 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (*gweler* adran 214 yn benodol sy'n newid enw'r Cyngor Proffesiynau Iechyd i'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal).